

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Rhagfyr 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Peter Garlick, Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Geraint Strello, Math Williams

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Ifor Dylan Williams, Emyr Williams, Mirain Llwyd Owen

Cyflwyniad gan Gwenllian Roberts, Swyddog Ailgylchu Cyngor Gwynedd ar Ailgylchu.

Dysgwyd y bydd yna newid bychan i'r drefn ailgylchu ddechrau 2018. Gellir cymysgu cartonau papur, e.e. UHT gyda plastigau nad sydd yn bapur, e.e. cwpan goffi, ym mocs canol y biniau ailgylchu glas.

Does dim safle tirlenwi gwastraff yng Ngwynedd. Mae'r holl wastraff tirlenwi yn mynd i ardal Wrecsam. Mae'n costio £100 y tunnell i'w waredu.

Mae'r gwastraff yn y bocs bwyd gwyrdd yn mynd i Graianog, ble mae'n cael ei drin mewn safle arbennig i gynhyrchu digon o nwy i roi pŵer i 1,000 o dai.

Mae Gwynedd yn ailgylchu tua 60% o'i holl wastraff ar hyn o bryd, ac mae disgwyl y bydd hynny'n cynyddu.

Diolchwyd i Gwenllian Roberts am y cyflwyniad diddorol a buddiol a gafwyd ganddi.

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Tachwedd 2017. Cynnig: Geraint Strello

Eilio: Peter Garlick

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Y Ganolfan

Mae gwresogydd nwy newydd wedi ei osod yn neuadd y ganolfan. Gobeithir bydd y gwresogydd yma'n ddigonol i wresogi'r neuadd, heb angen am ddarpariaeth bellach.

Deallir y bydd bil AER am osod y gwresogydd ychydig yn llai na'r gost wreiddiol oherwydd fod llai o waith gosod pibell na'r disgwyl.

Mae Hwyl y Bont wedi derbyn £4,000 o gronfa gymunedol Tesco, ac am ddefnyddio arian Tesco tuag at wella adnoddau'r Ganolfan, a bydd angen i Bwyllgor Y Ganolfan drafod y gwariant yma.

Mae piben ddwr sy'n casglu dwr o do'r Ganolfan wedi torri, a bydd trefniadau yn cael eu gwneud i'w drwsio'n fuan.

Does dim Cynllun Rheoli Tân efo'r Ganolfan. Awgrymwyd fod Pwyllgor y Ganolfan yn trafod hyn gyda'r bwriad o greu Cynllun. Dylent hefyd wirio a yw'r giat/ffens rhwng Ysgol Bontnewydd a'r Ganolfan wedi ei chloi, neu ydy hi'n bosibl cael mynediad o iard Y Ganolfan i iard yr ysgol.

Cytunodd y Cynghorydd Math Williams i fod yn drysorydd Pwyllgor Y Ganolfan.

Gofynnwyd i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd i weld a fyddent yn fodlon trosglwyddo Prydles Y ganolfan i Bwyllgor Y Ganolfan, gan yr ystyrir y byddai'n haws denu grantiau i'r Ganolfan drwy wneud hyn.

4.2 Problemau Traffig Llanfglan

Gofynnwyd i'r Clerc drefnu fod swyddog o Gyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Chwefror er mwyn trafod problemau traffig Llanfaglan, ac yn benodol rhesymeg Cyngor Gwynedd dros wrthod gosod cyfyngiad cyflymder ar hyd Lôn Pant.

4.3 Diffibriliwr

Mae'r diffibriliwr wedi ei gofrestru gyda'r WHA bellach.

Os oes golau gwrdd yn fflachio ar flwch y diffibriliwr yn mae'n gweithio'n iawn. Os nad oes golau, yn mae yna nam ar yr offer.

4.4 Caniatau parcio di-amod dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost, Bontnewydd

Ceisiodd y Cynghorydd Peter Garlick gasglu barn trigolion lleol am godi'r cyfyngiadau parcio yn y manau parcio dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost. Cymysg oedd y farn. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn cefnogi codi'r cyfyngiad parcio, ond gan nodi mai bwriad gwreiddiol y cyfyngiad oedd i rwystro pobl rhag gwerthu ceir yno, a gofyn i Gyngor Gwynedd gadw hyn mewn cof.

4.5 Ffordd i Blas Llanfglan

Mae'r gwaith o drwsio'r ffordd sy'n mynd at Blas Llanfaglan wedi ei wneud.

4.6 Pont Reilffordd Lôn Eifion

Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch, ni fydd Cyngor Gwynedd yn ystyried defnyddio unigolion ar Wasanaeth Cymunedol i dacluso'r tyfiant ar y bont.

Ar hyn o bryd nid ydynt o'r farn fod y tyfiant yn broblem, ond byddant yn asesu'r sefyllfa ac yn torri'r tyfiant yn ôl y galw.

4.7 Ffordd Llanfaglan i Fontnewydd

Mae'r ffordd wedi ei glanhau gan Gyngor Gwynedd.

4.8 Adolygiad o'r Sectorau Cyngorau Cymuned a Thref – Casglu Barn Cyngorau Cymuned

Gwnethpwyd y sylwadau canlynol:-

- Cefnogi cydweithio rhwng Cyngorau Cymuned, e.e. Pum Plwy Penllyn
- Bod angen cryfhau llais y gymuned

4.9 Adolygiad 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig

Mae'r adolygiad bellach yn gosod Caernarfon yn etholaeth newydd Gwynedd. Pan yr ymgynghorwyd o'r blaen roedd Caernarfon yn etholaeth Ynys Môn a Bangor.

Penderfynwyd nad oedd pwynt ymateb i'r ymgynghoriad.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Tachwedd 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £1.12

5.3 Balans yn y Banc 6 Rhagfyr 2017- £17,063.78

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio C16/1412/19/LL

Dymchwel ty presennol ac adeiladu gwesty 12 lloft – cynlluniau diwygiedig, Ty Glan Menai, Ffordd yr Aber, Caernarfon.

Penderfynwyd ysgrifennau at Gyngor Gwynedd gan nodi fod y cais mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Pwysleisiwyd fod angen ystyriaeth lawn o sylwadau Dwr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru oedd yn mynegi pryder am effaith llifogydd ar y safle.

7. GOHEBIAETH

- Diweddariad gan Heddlu Gogledd Cymru ar eu sefyllfa ariannol ar gyfer y misoedd nesaf
- Cylchlythyr Cais
- Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, gan nodi cefnogaeth mewn egwyddor i lythyr Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru.

8. MATERION ERAILL

8.1 Y fainc ger siop sglodion Bontnewydd

Y Cyngor Cymuned osododd y fainc ger siop sglodion Bontnewydd er cof am breswlydd lleol.

Mae'r fainc bellach mewn cyflwr gwael, ac mae aelod o'r cyhoedd wedi awgrymu y dylid gosod fainc newydd yn ei lle.

Gofynnwyd i'r Clerc gael pris i osod fainc newydd, ac am ailwampio'r fainc bresennol. Awgrymwyd y gallesid cysylltu â Mens Sheds yn Cibyn ac Antur Fachwen yng Nghwm y Glo.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

1 Chwefror am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

